# Cynnwys


## 1 Cyflwyniad

- Gair o Groeso a chyflwyniad i RaW: darllenwch ein hawgrymiadau ar gyfer eich canolfan
- Sut mae defnyddio'r Pecyn hwn
- Rhestr wirio RaW ar gyfer Llyfrgelloedd – beth y gall eich llyfrgell ei gynnig

## 2 Cefndir RaW

- **Pwy a Pham?** – proffiliau personol a chyffredinol o ddefnyddwyr o astudiaethau peilot, gydag ystadegau a gwybodaeth ddefnyddiol am lythrennedd
- **Trosolwg o RaW** – cipolwg ar yr ymgyrch tair blynedd

## 3 RaW Ymarferol

- Cyfnod 1: Potensial **RaW** – awgrymiadau ymarferol a manylion am adnoddau: popeth sydd angen i chi ei wybod i gychwyn ar eich ymgyrch RaW
- **Arwyddion Ymarferol RaW** – awgrymiadau sydd wedi eu profi o bob cwr o'r wlad
- **RaW** Ar-lein – canllaw i'r hyn y gall defnyddwyr ei ddisgwyl
- **Awgrymiadau Darllen RaW** – arwyddbyst i'r llyfrau perthnasol ar gyfer darllenwyr newydd
- **Llinell Ffôn a Hyfforddiant Personol RaW** – sut mae'n gweithio a'r hyn y gall yr ymgynghorwyr ei gynnig

## 4 Cwisiau RaW

- **Cwisiau RaW** – awgrymiadau ar sut mae trefnu digwyddiad a chynnal cwisiau

## 5 Beth Nesaf?

- **Cyfnod 2: Diddordebau Raw** – mwy o adnoddau a syniadau ar gyfer eich canolfan
- **Trywydd RaW** – llwybrau personol drwy'r ymgyrch

## 6 Cysylltwch

- **Bywyd ar ôl RaW** – mwy o adnoddau ar gyfer defnyddwyr
- **Cysylltiadau RaW** – sut mae cysylltu â thîm RaW

# Croeso RaW

Diolch am ddod yn rhan o'r bartneriaeth llyfrgell gyda RaW. Fel yr ymgyrch gyntaf i roi cychwyn i'r bartneriaeth strategol rhwng llyfrgelloedd a BBCLearning rydyn ni'n teimlo bod hyn yn ddechrau ar rywbeth mawr. Mae llythrennedd a phŵer geiriau yn lle gwych i ddechrau.

Efallai eich bod eisoes yn gwybod tipyn am ymgyrch RaW y BBC o ganlyniad i nifer o weithdai a gynhaliwyd yn gynharach eleni neu drwy dderbyn adroddiadau oddi wrth gydweithwyr. Bydd eich llyfrgell wedi ei chofrestru i weithio gyda RaW felly gallwch ddefnyddio'r pecyn hwn i roi gwybod i bawb am yr ymgyrch.

Gyda'ch mewnbwn arbenigol chi rydyn ni'n gobeithio gwella sgiliau darllen ac ysgrifennu oedolion yn eich cymuned. Gyda'n gilydd gallwn helpu pawb i ddarllen er mwyn pleser, i lenwi'r ffurflenni hynny ac i deimlo'n hyderus yn eu gallu darllen ac ysgrifennu.

Ond rydyn ni'n awyddus i gyrraedd y gynulleidfa darged o 12.1 miliwn o ddarllenwyr newydd yn y DU mewn ffordd anffurfiol a hygyrch. Mae'r bobl hyn yn gallu darllen ac ysgrifennu, ond yn aml does ganddyn nhw ddim digon o sgiliau a phrofiad i wneud hynny'n hyderus.

Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Ddarllen a'r 'Vital Link' (rhaglen sy'n cysylltu llyfrgelloedd â llythrennedd oedolion) ac yn anelu at gynnig i chi amrywiaeth gyflawn o adnoddau i'w defnyddio gyda phobl yn y llyfrgell a'r gymuned ehangach.

Dewiswch chi: rhaglenni teledu a radio, cwisiau ac adnoddau un pwrpas ar-lein – bbc.co.uk/cymru/raw – rhestri o lyfrau wedi eu hawgrymu a hyfforddiant dros y ffôn. Defnyddiwch nhw sut a phryd y bydd arnoch eu heisiau dros y tair blynedd nesaf – mae'r manylion i gyd yn y pecyn hwn.

Cadwch olwg ar wefan y Vital Link ar **www.vitallink.org.uk** am y newyddion diweddaraf ac offer cefnogi ar gyfer holl lyfrgelloedd y DU.

## Cynghorion Cyflym ar gyfer llyfrgelloedd RaW

- Cadwch y pecyn hwn wrth law – mae'n cynnwys pethau sylfaenol, yn enwedig os yw pobl yn gofyn cwestiynau.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych yn eich llyfrgell ardal RaW y mae'n hawdd mynd ati adran ac sy'n cynnwys gwybodaeth am sut rydych chi'n cefnogi'r ymgyrch, beth mae'n ei olygu i ddefnyddiwr y llyfrgell ac yn y blaen.
- Gwnewch yn siŵr bod y staff i gyd, yn cynnwys y rhai rhan amser, yn gwybod am yr ymgyrch.
- Byddwch â gwybodaeth am addysg leol wrth law: cyrsiau byrion, dosbarthiadau nos, gweithgareddau RaW eraill yn eich ardal.
- Gwnewch yn siŵr bod pawb yn gwybod pa staff sy'n arwain gweithgaredd RaW.
- Peidiwch â bod yn swil – dywedwch wrthon ni os yw'n gweithio a manteisiwch ar lwyddiant pobl eraill. Efallai y byddai eich gorsaf radio neu deledu BBC lleol am wneud eitem am eich gweithgaredd llyfrgell.

Mae defnyddiau RaW yn cyflwyno pobl i sgiliau newydd heb iddyn nhw sylweddoli hynny! Bydd pob gweithgaredd yn symud pobl ymlaen a bydd y BBC yn parhau i gynnig cyngor a chymorth.

Fel llyfrgell RaW, bydd eich manylion ar gael ar-lein ar bbc.co.uk/cymru/raw a thrwy linell ffôn RaW, **08000 150 950**, ar gyfer y rhai fydd yn chwilio am RaW yn eu hardal nhw.

Dyma ymgyrch lythrennedd fwyaf erioed y BBC.

Darllenwch y pecyn a mwynhewch RaW!

**Tim RaW BBC**

# Sut mae defnyddio'r pecyn hwn

Dyw RaW ddim yn ymwneud ag ymuno â chyrsiau neu fynd yn ôl i'r ysgol.

Mae'r ymgyrch yn cynnig amrywiaeth eang o adnoddau a gweithgareddau y gall pobl eu mwynhau yn eich canolfan RaW tra'n gwella'u lefelau darllen ac ysgrifennu yr un pryd.

Yn gynwysedig yn y pecyn mae'r holl wybodaeth y bydd arnoch ei hangen am yr ymgyrch, a'r amrywiaeth o adnoddau a gweithgareddau y gallwch bicio i mewn ac allan ohonyn nhw. Gellir llungopïo'r tudalennau ac maen nhw wedi eu rhannu'n adrannau hylaw ar gyfer eu defnyddio'n hawdd, a byddwch yn derbyn darnau ychwanegol cyn pob cyfnod newydd yn yr ymgyrch.

Mae'r amrywiaeth o adnoddau RaW yn helaeth: o gylchgrawn RaW (Saesneg), yn llawn straeon am y 'sêr', cwisiau ac eitemau nodwedd, i gwisiau RaW sy'n cynnwys rowndiau am chwaraeon, cerddoriaeth a gwybodaeth gyffredinol.

Mae RaW ar-lein yn wefan ar ffurf cylchgrawn, gyda gweithgareddau, cwisiau, holiaduron personoliaeth a dysgu, tra bod llinell ffôn RaW yn rhoi unigolion mewn cysylltiad â 'hyfforddwr' ffôn fydd yn eu cefnogi a'u helpu i gyrraedd targedau ymarferol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae gwybodaeth ar y dudalen Cysylltiadau yng nghefn y pecyn neu cysylltwch â thîm RaW.

E-bost: **rawcymru@bbc.co.uk**
Ffôn: **020 8752 6777**

## Manylion cyswllt angenrheidiol RaW ar gyfer staff llyfrgell

Rhowch fanylion eich prif gyswllt RaW yma.

**Enw**

______________________________

**E-bost**

______________________________

**Ffôn**

______________________________

Ar gyfer ymholiadau'n ymwneud â'r bartneriaeth rhwng y llyfrgell a BBC Learning a RaW, cysylltwch ag:

Yr Asiantaeth Ddarllen

E-bost: **resources@readingagency.org.uk**

Ffôn: **0871 750 1207**

RaW BBC

# Rhestr Wirio RaW ar gyfer llyfrgelloedd

**Mae'ch ymwneud â RaW yn hanfodol. Tra bod gan y BBC yr offer i hyrwyddo'r ymgyrch, mae gan lyfrgelloedd yr wybodaeth leol i'w wireddu. Yr hyn a wnawn ni yn syml iawn yw awgrymu beth a allai wneud i'ch ymgyrch fynd rhagddo'n fwy esmwyth ac rydyn ni'n ymwybodol bod rhai o'n syniadau eisoes ar waith.**

- **Hygyrchedd**. Mae ymchwil wedi dangos y gallai ein cynulleidfa darged deimlo'n anghyfforddus mewn amgylchedd ffurfiol a bod ganddyn nhw'r syniad hen ffasiwn fod llyfrgelloedd yn lleoedd tawel ar gyfer pobl â diddordeb mewn llyfrau / pobl sych syber – yn bendant ddim iddyn nhw. Mae arddangosfeydd (mae unrhyw beth sy'n ymwneud â 'sêr' yn siŵr o lwyddo), corneli croeso a derbyniad cynnes yn siŵr o annog pobl i ddod yn ôl eto.

- **Gwybodaeth am RaW**. Er y bydd rhai cydweithwyr yn y llyfrgell wedi bod mewn gweithdy RaW neu wedi gweld y DVD hyrwyddo, fe fydd rhai heb wneud hynny. Mae angen i bawb gael eu briffio'n rheolaidd ynglŷn â Raw. Cadwch olwg am gylchlythyr RaW am unrhyw ddiweddariad. Mae RaW yn ymgyrch tair blynedd a gellir casglu gwybodaeth fanwl dros amser. Cadwch y pecyn hwn mewn man lle gall y staff ddod o hyd iddo'n hawdd.

- **Bydd ymwybyddiaeth o raglen y 'Vital Link'** a gaiff ei chynnal gan yr Asiantaeth Ddarllen yn helpu'r staff i gyd. Mae hyn yn ymwneud â dod o hyd i ffyrdd y gall llyfrgelloedd gefnogi oedolion sy'n gwella'u sgiliau llythrennedd. Er bod y 'Vital Link' yn rhan o strategaeth y Llywodraeth ar gyfer llyfrgelloedd, y Fframwaith ar gyfer y Dyfodol, yn Lloegr yn unig, rydyn ni'n gobeithio y bydd y gefnogaeth mae'n ei gynnig hefyd yn ddefnyddiol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r pecyn hwn yn cyfeirio at rai o'r casgliadau llyfrau a ddewiswyd gan y Vital Link ar gyfer darllenwyr newydd, ac mae canllawiau datblygiad ynghyd ag astudiaethau achos ar bob agwedd o'r modd y gall llyfrgelloedd gefnogi dysgwyr i'w cael ar y wefan www.vitallink.org.uk.

- **Byddwch arwyddbost, symudwch bobl ymlaen.** Peidiwch â theimlo bod rhaid i chi ymgymryd â'r gwaith o hyrwyddo'r cynllun cyfan yn eich ardal. Mae amrywiaeth o sefydliadau ar draws y DU wedi cofrestru fel canolfannau RaW, o ganolfannau cymunedol i dafarndai a chlybiau chwaraeon. Fe fydd ganddyn nhw'u fersiwn eu hunain o'r pecyn hwn. Bydd rhestr o ganolfannau RaW yn cael eu rhoi ar y wefan o fis Hydref 2005. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â nhw ac yn cyfeirio pobl at y gweithgareddau maen nhw'n eu cynnig. Hefyd sicrhewch fod gennych fanylion am ddysgu mewn mannau eraill – dosbarthiadau nos, colegau ac ati. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.

- **Byddwch groesawgar.** Gwnewch yn siŵr bod y llyfrau sydd wedi eu clustnodi ar gyfer darllenwyr newydd i'w gweld mewn arddangosfa ddeniadol sy'n gwneud i ddefnyddwyr newydd deimlo bod croeso iddyn nhw a bod digon o gyfleusterau ar eu cyfer. Ceisiwch osgoi jargon llyfrgell a gormod o arwyddion ac ystyriwch symleiddio'ch trefniadau ymuno er mwyn annog aelodau newydd i'r llyfrgell trwy RaW.

- **Gweithiwch ar eich lefel eich hun.** Mae awdurdodau llyfrgelloedd yn ymuno yn y gweithgareddau trwy nodi bod eu llyfrgell ar y lefel sylfaenol, y lefel ganolig neu'r lefel uwch. Dyma rai syniadau o'r hyn y dylai canghennau allu ei gynnig os ydyn nhw'n hybu RaW. Mae croeso i chi ddewis a dethol a newid rhwng lefelau'r gweithgareddau.

## Y Lefel Sylfaenol

- Y staff i gyd yn gwybod am yr ymgyrch a'r hyn y gallan nhw ei gynnig i bobl sy'n holi am RaW:

- RaW ar-lein ar bbc.co.uk/cymru/raw

- Y llinell ffôn RaW ar **08000 150 950** ar gyfer hyfforddiant personol ac unrhyw wybodaeth arall.

# Rhestr Wirio RaW ar gyfer llyfrgelloedd (parhad)

- Manylion am ddigwyddiadau RaW yn yr ardal leol.
- Gwybodaeth am y ddarpariaeth dysgu lleol.
- Yr holl derfynellau cyfrifiadurol yn cynnig mynediad hawdd i bbc.co.uk/cymru/raw.
- Bod gennych lyfrau deniadol ar gyfer darllenwyr llai hyderus yn eich llyfrgell eich hun neu eich bod yn gwybod sut mae cael gafael arnyn nhw o gangen arall.
- Bod eich llyfrgell yn cysylltu â phartneriaid lleol perthnasol yn cynnwys canolfannau eraill sy'n rhan o RaW.

## Y Lefel Ganolig

Yr uchod i gyd a hefyd:

- Bod cynrychiolwyr wedi eu henwebu ar lefel cangen yn arwain y gweithgareddau RaW.
- Eich bod yn defnyddio baner RaW ar-lein neu arbedwr sgrîn i hybu gwefan yr ymgyrch lle bynnag bo hynny'n bosibl.
- Bod hysbysfwrdd RaW yn cyhoeddi digwyddiadau, yn rhannu barn darllenwyr ac yn hybu rhaglenni RaW.
- Eich bod yn cynnal digwyddiadau megis cwisiau RaW neu nosweithiau thematig gydag adolygiadau o'r rhain yn ymddangos yn y wasg leol.
- Bod cynulleidfa RaW yn cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol megis cadwyni darllen, argymell llyfrau da a chlybiau llyfrau.
- Bod RaW yn gysylltiedig â'ch gwaith gyda theuluoedd, gweithleoedd a phartneriaid eraill.
- Lle bynnag mae RaW yn cael ei hyrwyddo'n lleol, mae'r llyfrgell yno hefyd.

## Y Lefel Uwch

Yr elfennau Sylfaenol a Chanolig a hefyd:

- Bod gan staff amser wedi'i neilltuo ar gyfer bod yn arwyddbyst ac i gyfeirio.
- Bod tîm RaW yn gwybod am eich llwyddiannau.
- Eich bod yn cadw adolygiadau darllenwyr RaW mewn arddangosfeydd arbennig.
- Eich bod yn cynnal sesiynau RaW ar-lein arbennig, efallai'n cysylltu â thiwtoriaid lleol.
- Bod eich llyfrgell yn ganolbwynt i ddarllenwyr RaW neu'n cynnal digwyddiadau i awduron gydag anogaeth i bobl i ysgrifennu ac adrodd storïau.
- Bod radio a theledu'r BBC yn gwybod beth rydych yn ei wneud ar gyfer eu rhaglenni RaW.
- Bod eich prif gyswllt RaW yn gweithio gyda llyfrgelloedd RaW ar draws y wlad.
- Bod RaW yn cael ei weld fel ffordd wych i dargedu grwpiau lleol mae angen i'r llyfrgell eu cyrraedd.

Ewch i **www.vitallink.org.uk** i weld enghreifftiau o lyfrgelloedd yn gweithredu hyn i gyd.

# Pwy a pham?

Mae'n bwysig sylweddoli pwy fydd yn dod trwy'r drws a pham

Bydd rhai pobl yn dod i mewn yn betrusgar (er gwaethaf gwahoddiad neu ymwybyddiaeth o RaW). Mae'r ffaith y gallen nhw fod yn eich canolfan beth bynnag (ar gyfer defnyddio'r we, cael diod neu gymryd rhan mewn cwis) yn un o brif atyniadau ymgyrch RaW.

Mae astudiaeth peilot RaW wedi dangos pa fathau o bobl a allai gael budd o RaW ac mae rhai astudiaethau achos wedi eu rhestru dros y dudalen. Mae hefyd wedi datgelu rhai pwyntiau diddorol:

- Pwysleisiodd pawb y bydden nhw'n croesawu cefnogaeth, felly cofiwch fod croeso i chi ddosbarthu adnoddau a gwybodaeth am ddigwyddiadau RaW ble bynnag fo hynny'n addas.
- Dywedodd pawb eu bod yn frwdfrydig dros RaW unwaith eu bod wedi dod dros y rhwystr cyntaf.
- Mae'r rhan fwyaf yn darllen papurau tabloid, cylchgronau fel Hello neu fywgraffiadau hawdd eu darllen. Roedd erthyglau byrion fel y dudalen broblemau neu horosgopau yn hynod boblogaidd.
- Dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn cael trafferth cyflawni tasgau cyffredin bob dydd (ysgrifennu llythyrau, llenwi ffurflenni ac yn y blaen).

## Proffil o'r gynulleidfa

Mae RaW wedi ei anelu at oedolion sydd â'u sgiliau llythrennedd yn Lefel Mynediad 3 a Lefel 1 ar y Cwricwlwm Llythrennedd Craidd Oedolion – fe allan nhw ddarllen ac ysgrifennu'n gymwys ddigon ond heb fod yn ddarllenwyr hyderus neu brofiadol.

Mae 12.1 miliwn o oedolion yn y DU – nifer cyfartal o ddynion a gwragedd – yn ffitio i'r categori hwn.

Mae llai nag un o bob deg yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol, ond bydd dysgwyr ESOL yn cael budd o'r adnoddau a bydd llinell ffôn RaW yn cyfeirio oedolion tuag at y ddarpariaeth addas. Yn yr un modd, bydd y llinell ffôn yn cyfeirio dysgwyr dyslecsig at gyfleon addas.

Mae'r gynulleidfa'n fwy tebygol o ddod o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is ond mae yna gynrychiolaeth sylweddol o'r lefel broffesiynol/rheoli.

### Cyngor Cyflym RaW

Byddwch mor groesawgar â phosibl – mae defnyddwyr yn chwilio am anogaeth.

# Pwy a pham? (parhad)

## Proffiliau personol RaW

- Mae Manisha yn 35 oed ac mae hi wedi dechrau ar swydd newydd wych sy'n golygu bod angen iddi gyfathrebu gyda chydweithwyr a busnesau eraill. Mae ei darllen a'i hysgrifennu yn ddigonol ond mae'n poeni bod ffyrdd gwell o ysgrifennu llythyrau ac e-byst i gyfleu ei neges yn well.

- Mae Shane yn ddyn yn ei dridegau canol, yn ymroddedig i'w deulu, ac mae'n gweithio fel gyrrwr dosbarthu. Rhoddodd ffrind y daflen RaW iddo gan awgrymu ei fod yn mynd i sesiwn gan ei fod nawr yn cael peth anhawster wrth helpu ei fab hynaf (13 oed) gyda'r darllen mae'n ei gael o'r ysgol. Mae eisiau gallu cadw i fyny â'i fab ac osgoi mynd trwy'r un embaras gyda'i blentyn ieuengaf.

- Mae Sheila yn 49 oed. Collodd ei mab a'i merch yng nghyfraith mewn damwain a chafodd ei gadael i fagu ei hwyres, Sophie, a oedd yn ddim ond saith oed ar y pryd. Penderfynodd ddiweddaru ei sgiliau (roedd wedi gadael yr ysgol â dim ond ychydig o gymwysterau) fel y gallai helpu Sophie â'i gwaith ysgol. Mae Sheila wedi bod ym mynd i'w chanolfan gymunedol leol ac mae nawr yn datblygu hoffter gwirioneddol o ddarllen.

- Mae Jon yn ei ugeiniau cynnar. Gadawodd yr ysgol â thri TGAU a dechreuodd ar brentisiaethau mewn nifer o wahanol sectorau ond ni orffennodd yr un ohonyn nhw. Gweithiodd mewn stordy nes ei fod yn 20 oed a hefyd bu'n gweithio mewn ffatri. Yna aeth ymlaen drwy gyfrwng cynllun y Fargen Newydd i weithio i'r rheilffyrdd lleol, ond dyw'r gwaith ddim yn ddibynadwy. Mae'n gobeithio ailhyfforddi ar gyfer gyrfa a fyddai'n rhoi cyflog rheolaidd dibynadwy iddo.

# Trosolwg o RaW

Mae RaW yn ymgyrch tair blynedd sy'n amcanu i wella sgiliau llythrennedd cyffredin mewn amgylchedd sy'n gyfeillgar i'r defnyddiwr. Mae yna elfennau parhaol ar-lein y gellir picio i mewn ac allan ohonyn nhw, a gweithgareddau sydd wedi eu bwriadu'n fwy at gyfnodau mwy penodol. Does dim man cychwyn na man gorffen penodol.

Bydd gan bob cyfnod RaW bwyslais penodol.

### Cyfnod 1: Potensial RaW
### Hydref 2005– Chwefror 2006

- Cyfnod codi ymwybyddiaeth pryd bydd oedolion yn cael eu hannog i ddarganfod eu lefelau llythrennedd mewn ffordd anffurfiol trwy'r teledu a'r radio ac ar-lein.
- Bydd cwisiau RaW yn chwarae rhan allweddol mewn denu defnyddwyr i ganolfannau RaW.
- Bydd llinell ffôn RaW yn darparu gwasanaeth hyfforddi un-i-un hanfodol. Cofiwch ofyn am siaradwr Cymraeg.
- Bydd y gwasanaeth ar-lein yn cael ei hybu'n drwm ar y teledu a radio ac mewn canolfannau RaW.
- Mae ymwybyddiaeth a'r awydd i symud ymlaen yn rhan allweddol o gyfnod cyntaf RaW. Fe fyddwn yn helpu pobl i benderfynu lle maen nhw a lle maen nhw eisiau mynd.

### Cyngor Cyflym RaW

Mae RaW yn ymwneud â chamau dysgu bychain, nid camau addysgol breision – dyw hi byth yn rhy hwyr i ymuno â'r ymgyrch.

# Trosolwg o RaW (parhad)

## Cyfnod 2: Diddordebau RaW
## Mawrth 2006 – Chwefror 2007

- Cyfnod wedi ei seilio ar ddiddordebau pobl, yn hybu detholiad o lyfrau newydd adloniadol ac amserol ar gyfer darllenwyr canolig.

- Bydd yr elfen o gymryd rhan yn cynnwys digwyddiadau sy'n berthnasol i chwaraeon gyda 'Pigion Raw' ('RaW Recommends'), 'Llyfr i mi, llyfr i ti' ('RaW Swaps'), 'Darllen RaW' ('RaW Reads') a 'Straeon RaW' ('RaW Stories').

- Bydd llyfrau newydd, rhaglenni ac adnoddau eraill, yn cynnwys adran arbennig ar-lein, i gyd yn uchafbwyntiau'r cyfnod hwn.

## Cyfnod 3: Plant RaW
## Mawrth 2007–2008

- Mae'r cyfnod olaf hwn wedi ei fwriadu ar gyfer darllen gyda phlant. Wedi ei gynllunio ar gyfer rhieni, neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd a gofalwyr, bydd yn ceisio creu amgylchedd diogel yn y cartref, yn yr ysgol, mewn llyfrgelloedd a chaffis lle gellir datblygu hoffter o ddarllen ac ysgrifennu.

- Bydd cynlluniau darllen a rhestrau llyfrau Raw yn cael eu hanelu at deuluoedd.

- Bydd canolfannau RaW yn cael eu hannog i gynnal gweithgareddau dysgu i deuluoedd a digwyddiadau lleol i hyrwyddo'r cyfnod hwn.

- Unwaith eto bydd RaW yn cael sylw ar y teledu a'r radio, ar-lein ac mewn mannau eraill.

# Cyfnod 1: Potensial RaW

I gael RaW i weithio yn ystod y cyfnod cyntaf hwn, rhowch gynnig ar y canlynol:

- Cynhaliwch gwis RaW: mae hon yn ffordd ddelfrydol i gynnal digwyddiad sydd ddim yn fygythiol o gwbl ond yn cynnig awgrymiadau bychain a chwestiynau difyr gyda thro llythrennedd ynddyn nhw.
- Denwch bobl i ddefnyddio RaW ar-lein.
- Hybwch hyfforddi ar y ffôn trwy linell ffôn RaW.

# Cyfnod 1: Potensial RaW (parhad)

## *DVD EastEnders* (Saesneg)




Canllaw i Albert Square trwy lygaid yr actorion. Galwch i mewn i'r Queen Vic neu rhannwch newyddion am y Slaters. Ym mhob lleoliad bydd y cyflwynydd yn rhoi peth cefndir ac yn gofyn cwestiwn wedi ei seilio ar lythrennedd. Bydd atebion cywir yn datgloi darn clasurol o archif EastEnders. Mae yna sesiwn adborth defnyddiol os yw gwylwyr eisiau unrhyw help wedyn.

Gall canolfannau **RaW** archebu hyd at 40 o gopïau o'r DVD i'w defnyddio fel gwobrau ac ati trwy gydol Cyfnod 1. Bydd y llinell ffôn yn cyfeirio pobl atoch i ddod o hyd i sut y gallan nhw ennill DVD. Rydyn ni'n awgrymu eich bod yn cadw hyd at bump copi fel adnoddau y gellir eu rhannu a'ch bod yn defnyddio'r lleill fel pethau i'w rhannu neu eu cyflwyno'n wobrau mewn digwyddiadau a gweithgareddau.

*Awgrymiadau*

- Rhowch y DVDs fel gwobrau mewn cwisiau.
- Defnyddiwch nhw fel symbyliad i annog pobl i fynychu digwyddiad. Rhowch nhw i oedolion sydd wedi cwblhau gweithdy neu sesiwn gyda chi.
- Gwyliwch y DVD fel grŵp rhowch gynnig ar y cwisiau gyda'ch gilydd.

## Tiwnio i'r teledu a radio

**Trwy gydol yr hydref** bydd EastEnders a Doctors yn cynnwys straeon am lythrennedd.

Bydd gorsafoedd radio'r BBC hefyd yn hyrwyddo gwefan a llinell ffôn RaW.

Bydd mwy o raglenni yn cael eu cyhoeddi ar y wefan, felly cadwch olwg.

# Cyfnod 1: Potensial RaW (parhad)

## Defnyddiau hyrwyddo

Bydd y prif gyswllt RaW yn eich awdurdod yn gyfrifol am ddosbarthu defnyddiau i chi ac fe fyddan nhw'n cael eu dethol yn addas o'r rhestr isod.

- **Cardiau crafu RaW ( Saesneg)** – cwestiynau i godi ymwybyddiaeth. Gellir eu dosbarthu mewn digwyddiadau neu gyda benthyciadau cerddoriaeth a ffilmiau.
- **Posteri RaW** – llenwch fanylion eich sesiynau cwis, sesiynau ar-lein neu weithgareddau RaW eraill (mae yna dri chopi i bob llyfrgell gyda fersiwn y gellir ei lwytho i lawr a'i lungopïo hefyd ar gael yn adran yr ymgyrch ar y wefan, bbc.co.uk/raw/campaign). Mae lle gwag yng nghanol y poster lle gallwch chi ysgrifennu manylion am eich canolfan ac amserau digwyddiadau i ddod.
- **Baner llyfrgell RaW** – ar gyfer eich prif lyfrgell RaW.
- **Sticeri llawr/ffenestri llyfrgell RaW** – er mwyn cael eu gweld neu i nodi'r ffordd i'r ardal lle mae terfynellau RaW yn y llyfrgell.
- **Bathodynnau llyfrgell RaW** – i ddynodi pwy yw'r staff mewn digwyddiadau ac i'w defnyddio fel anrhegion i'w rhannu.

**Sticeri RaW** – rhowch nhw i staff a'r rhai sy'n cymryd rhan, glynwch nhw ar lyfrau, cyfrifiaduron, neu unrhyw beth a fynnwch. (Mae sticeri'n cael eu cynnwys yn y pecyn hwn).

**Arbedwr sgrîn ac eiconau y gellir eu llwytho i lawr** – ewch i adran ymgyrch y wefan i lwytho i lawr arbedwr sgrîn RaW ac eiconau cysylltu â gwefannau er mwyn i hybu RaW ar-lein.

### Cyngor Cyflym RaW

Cynhaliwch gwis neu sesiwn ar-lein – byddwch greadigol gydag adnoddau hyrwyddo RaW.

# Awgrymiadau ymarferol RaW

Mae'r awgrymiadau isod wedi gweithio i nifer o lyfrgelloedd ar draws y wlad; dydyn nhw ddim yn lasbrint ond yn awgrymiadau a all fod o help i reolwyr llyfrgelloedd. Cewch fwy o syniadau ac astudiaethau achos ar www.vitallink.org.uk.

## Byddwch ryngweithiol wrth gwrdd â phobl sydd ddim yn defnyddio'r llyfrgell yn rheolaidd

- Cysylltwch â chanolfannau RaW eraill yn eich ardal: efallai y gallai'r tafarnau, clybiau a chanolfannau chwaraeon a chymunedol hysbysebu'ch digwyddiadau.

- Crëwch eich rhaglen hyrwyddo'ch hun gyda phosteri a manylion y digwyddiadau yn cael eu rhoi yn y ganolfan siopa leol, y ganolfan hamdden, coleg, cylchlythyrau y cyngor lleol ac ati.

- Os oes gwasanaeth teithiol gan eich gwasanaeth llyfrgell neu fodd i ddefnyddio cerbydau cymunedol eraill, trefnwch ddyddiau codi ymwybyddiaeth RaW o gwmpas yr ardal.

- Os oes gŵyl leol yn eich tref, codwch stondin lyfrgell RaW gyda phosteri a gwybodaeth.

## Sefydlwch grwpiau thematig o gwmpas llyfrau fydd wedi eu dethol gan ddefnyddio meini prawf y Vital Link

- Chwaraeon, ffuglen wyddonol, straeon arswyd, comedi, hanes – rhai themâu sydd efallai'n awgrymu eu hunain i grwpiau un rhyw (er enghraifft grŵp yn ystod y dydd i famau â phlant ifanc).

- Trefnwch ddigwyddiadau i roi cychwyn da i grwpiau thematig (megis noson bêl-droed gyda chwrw, neu flasu gwin), a hysbysebwch mewn canolfannau chwaraeon lleol a siopau.

## Trefnwch ddigwyddiadau gydag awduron a 'sêr'

- Gwahoddwch rywun lleol enwog i ddigwyddiad i gefnogi'r ymgyrch ac i siarad am lyfrau.

- Gofynnwch i awdur lywyddu noson o ddarllen hygyrch neu o drin a thrafod llyfrau maen nhw'n eu hoffi neu lyfrau a fyddai'n addas ar gyfer cynulleidfa RaW.

- Cynhaliwch y digwyddiad mewn siop lyfrau leol gan roi manylion am yr hyn sy'n mynd ymlaen "nôl yn y llyfrgell".

- Cofiwch y bydd gorsafoedd radio lleol y BBC yn awyddus i glywed am yr hyn rydych yn ei wneud, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhannu straeon newyddion a hanes digwyddiadau gyda phrif gyswllt RaW eich awdurdod a all roi gwybod iddyn nhw.

# Awgrymiadau Ymarferol RaW

(parhad)

## Manteisiwch ar ddigwyddiadau neu hyrwyddiadau thematig

• Os ydych chi'n rheolaidd yn cynnal cwisiau, sgyrsiau, sesiynau teuluol neu nosweithiau dirgelwch, cysylltwch nhw â defnyddiau ac adnoddau RaW.

• Defnyddiwch Wythnos Dysgu y Teulu, Wythnos Dysgu Oedolion, neu eich gweithgareddau Sialens Darllen yr Haf i ddenu oedolion ac i arddangos defnyddiau a gwybodaeth RaW perthnasol.

## Byddwch greadigol gydag arddangosfeydd RaW

• Ysgrifennwch adolygiadau hwyliog o'r llyfrau rydych yn eu hyrwyddo ar gyfer darllenwyr newydd.

• Gofynnwch i staff y llyfrgell sôn am eu llyfrau GWAETHAF a'r rhesymau pam. Gall hyn wneud i bawb deimlo'n well ynglŷn â chael ambell lyfr yn ddiflas a'i gwneud yn haws hyrwyddo llyfrau fydd ar y rhestr.

## Cysyllltwch â chynrychiolwyr dysgu yn y gweithle neu eich Partneriaeth Ddysgu leol

• Defnyddiwch RaW fel rheswm i gysylltu â busnesau lleol a sefydliadau eraill a fyddai efallai'n awyddus i gefnogi'r ymgyrch a chynnal digwyddiad ar y cyd.

• Gweithiwch gyda'r adran Adnoddau Dynol yn yr awdurdod lleol i hybu RaW oddi fewn i weithlu'r cyngor.

# RaW Ar-lein
# bbc.co.uk/cymru/raw

Ydych chi'n gwneud y gorau o'ch Cymraeg? Mae gwefan RaW Cymru yn annog pobl i fynd ati i wella'u darllen a'u hysgrifennu. Beth am gael hwyl gyda'n holiadur ysgafn? Neu beth am fwrw golwg dros rai o'n hoffer iaith arbennig?

Rydym hefyd wrthi'n datblygu ystod o weithgareddau cyffrous ar-lein.

Mae'r adran Cam wrth Gam (gweler y dudalen nesaf) yn rhoi syniad i staff canolfan RaW beth mae defnyddwyr yn ei feddwl o RaW ar-lein. Mae'r safle yn hawdd ei defnyddio ond mae adnoddau ar-lein bob amser yn gweithio orau gydag ychydig gymorth caredig ac arbenigedd.

Mae canolfannau RaW yn cael eu hannog i gynnal sesiynau ar-lein gyda staff sydd wrth law i roi hyder i ddefnyddwyr ac i hyrwyddo'r wefan yn gyffredinol. Mae yna ddwy ran i'r wefan – un i ddefnyddwyr ac un i ganolfannau.

1 **bbc.co.uk/cymru/raw**
Gall defnyddwyr ddewis o amrywiaeth o gemau, cwisiau a gweithgareddau i helpu gwella'u sgiliau darllen ac ysgrifennu. Fe allan nhw hefyd ddarganfod pa ganolfannau sydd yn eu hardal.

2 **bbc.co.uk/raw/mwy/ymgyrch**
Gall canolfannau RaW ddefnyddio adran ymgyrch y wefan i roi adborth am sut mae eu rhan nhw yn yr ymgyrch yn datblygn a chael gafael ar wybodaeth newydd a ddarperir gan dîm RaW.

# RaW Ar-lein
# bbc.co.uk/cymru/raw (parhad)

## Cam wrth Gam

Ar y tudalen gartref gall rhai sy'n ymweld am y tro cyntaf ddewis dolen 'Beth yw RaW?' i ddarganfod popeth am yr ymgyrch. Mae hyn yn cyflwyno'r defnyddiwr i'r wefan ac i elfennau gwahanol RaW.

Gall defnyddwyr wedyn ddewis o dri opsiwn:

**1 Proses sgrinio bersonol yn defnyddio cwestiynau amlddewis**

Mae'r broses hon wedi ei chynllunio i roi i'r defnyddwyr ymdeimlad o'u gallu eu hunain mewn darllen ac ysgrifennu. Does a wnelo hyn ddim â graddio ond â symud y defnyddiwr ymlaen i'r gweithgareddau mwyaf defnyddiol ac opsiynau eraill yn cynnwys mwy o adnoddau dysgu.

**1 Proses sgrinio bersonol**
http://www.bbc.co.uk/cymru/raw/cwis/



**2 Cysylltiad uniongyrchol ag amrywiaeth o gemau a chwisiau ar-lein i helpu gwella darllen ac ysgrifennu**

Rydym wrthi'n datblygu ystod o weithgareddau cyffrous ar-lein fydd yn helpu i fagu hyder wrth ddarllen a sgwennu'r Gymraeg. Bydd y gemau'n rhyngweithiol gyda chynnwys gweledol bywiog sy'n creu canlyniadau dysgu yn syth.

**2 Amrywiaeth o gemau a chwisiau ar-lein**
http://www.bbc.co.uk/cymru/raw/newyddion/

**3 Offer Iaith**

Ar y wefan mae na adran o'r enw Help Llaw. I'r dim ar gyfer taclo'r treigladau neu gael gwared ar wallau gramadeg!

**3 Help Llaw**
http://www.bbc.co.uk/cymru/raw/help/

# RaW Ar-lein bbc.co.uk/cymru/raw (parhad)

## Nodweddion eraill

### Dewch o hyd i'ch Canolfan RaW neu Lyfrgell RaW agosaf

- Bydd y llinell ffôn **08000 150 950** yn helpu'r rhai sy'n galw i ddod o hyd i ganolfannau a llyfrgelloedd eraill RaW. Cofiwch ofyn am siaradwr Cymraeg.

### Pigion Raw

- Bydd llyfrau a argymhellir gan 'sêr' yn ymddangos yn rheolaidd.

### Bywydau go iawn RaW

- Bwriad yr adran hon fydd symbylu defnyddwyr trwy ddangos sut mae pobl eraill wedi llwyddo i goncro'u hofnau a'u hamharodrwydd i wella'u sgiliau llythrennedd.

- Bydd yn gronfa o straeon go iawn a gaiff eu diweddaru a'u newid i weddu i bob cyfnod RaW.

*Awgrymiadau ar-lein*

- Cynhaliwch sesiwn ar-lein yn eich canolfan, dangoswch yr hyn gaiff ei gynnig a rhowch gyfle i ddefnyddwyr roi tro arni. Ni fydd pob defnyddiwr RaW mewn sefyllfa i allu defnyddio cyfrifiadur gartref.

- Defnyddiwch yr arbedwr sgrîn y gellir ei lwytho i lawr i wneud yn siŵr bod cyfrifiadur RaW amlwg yn ardal gyfrifiadurol eich canolfan neu yn eich ardal RaW (os yw hyn yn addas).

- Rhannwch eich profiadau RaW trwy gyfrwng adran ymgyrch y wefan – rydyn ni eisiau gwybod beth sy'n gweithio a beth sydd ddim.

**Cyngor Cyflym RaW**

Hyrwyddwch y wefan – anogwch y defnyddwyr i fynd ar-lein

# Llinell Ffôn a Hyfforddiant Personol RaW 08000 150 950

Mae llinell ffôn RaW wrth galon yr ymgyrch gydag ymgynghorwyr ben arall y ffôn i gyfeirio galwyr at yr adnodd perthnasol. Mae hyn yn cynnwys helpu pobl i ddod o hyd i'w canolfan RaW agosaf, archebu'r cylchgrawn a derbyn hyfforddiant ar y ffôn. Cofiwch ofyn am siaradwr Cymraeg.

Mae hyfforddiant ar y ffôn yn rhan unigryw o'r gwasanaeth hwn a chaiff ei gynnal ar y cyd â learndirect (gweler **www.learndirect.co.uk**).

Dylai canolfannau RaW gyfeirio pobl at y llinell ffôn a'r hyfforddiant ar y ffôn (caiff ei glustnodi ar y wefan ac ar y teledu a'r radio). Dylai'r wybodaeth isod helpu gydag unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r gwasanaeth.

## Beth yw hyfforddiant ar y ffôn?

Mae hyfforddiant ar y ffôn fel cael hyfforddwr personol mewn llythrennedd. Mae'n wasanaeth anffurfiol, cyfrinachol gydag ymgynghorwr dysgu arbenigol yn cynnig llwybr dysgu personol sy'n datblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu.

## Cost ac amser?

Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Mae'r alwad gyntaf yn trefnu amser y sesiwn galw nôl gyntaf oddi wrth hyfforddwr dysgu. Gall yr alwad nôl fod i unrhyw ffôn rhwng 8 am a 10 pm. Yng Nghymru Lloegr a Gogledd Iwerddon mae'r gwasanaeth hyfforddi ar y ffôn yn golygu tair sesiwn galw nôl yn para hyd at 30 munud yr un. Bydd yr Alban yn cynnig model tebyg.

## Beth yw'r tair sesiwn galw nôl?

*Sesiwn 1*

Bydd yr alwad gyntaf hon yn darganfod beth mae'r dysgwr unigol yn gobeithio'i gyflawni. Bydd hyfforddwyr dysgu yn cynnig cyngor ar amrywiaeth o bynciau, megis gwneud cais am swydd, ysgrifennu CV, creu adroddiad ac ysgrifennu llythyr ffurfiol neu bersonol.

Bydd yr hyfforddwr yn gweithio gyda'r galwr i osod amcanion clir a sefydlu cynllun gwaith. Mae'r cam hwn yn hanfodol gan mai dyma pryd bydd yr hyfforddwr yn gallu penderfynu a yw nod neu amcanion y galwr yn realistig a sut y gellir delio â nhw.

*Sesiwn 2*

Bydd yr ail alwad yn cael ei gwneud ar adeg wedi ei drefnu ymlaen llaw pan fydd peth o'r rhaglen y cytunwyd arni yn Sesiwn 1 wedi ei chwblhau. Bydd yr hyfforddwr yn darganfod sut mae'r cynllun yn dod yn ei flaen. Os oes yna broblemau bydd yr hyfforddwr yn gallu rhoi cyngor pellach i'r galwr. Gallai hyn ymwneud â materion ymarferol neu bersonol megis arian, gofal plant neu hyder.

*Sesiwn 3*

Bydd y sesiwn olaf yn cael ei defnyddio i ddod i ben ag unrhyw faterion fydd heb eu cwblhau, yn fwyaf pwysig, i gyfeirio'r galwr tuag at ddarpariaeth bellach os oes angen. Gallai hyn fod yn ddysgu mwy ffurfiol – cwrs neu gymwysterau. Os na fydd yr amcanion wedi eu cyrraedd, bydd yr hyfforddwr yn gwneud awgrymiadau eraill i symud y galwr ymlaen mewn camau llai.

### Cyngor Cyflym RaW

Anogwch ddefnyddwyr i wneud yr alwad gyntaf – mae'r posibiliadau'n ddiddiwedd.

# Cwisiau RaW

## Croeso i adran cwis RaW

I'w defnyddio gennych chi eich hunain mewn tafarndai a chanolfannau cymunedol i gael tipyn o hwyl ac i roi ymarfer i'r ymennydd ar ôl y diwrnod gwaith!

# Angenrheidiol ar gyfer Cwis RaW GWYCH

**Rydyn ni i gyd wedi bod i gwisiau. Mae rhai wedi bod yn dda ac mae eraill wedi bod yn rhy hawdd, rhy anodd, neu wedi bod â gormod o gwestiynau am golff, ond dyma i chi ambell awgrym ar sut mae cael pethau'n iawn.**

## Fe fydd arnoch angen:

- I x cwis RaW y BBC
- I x synnwyr digrifwch
- I x lleoliad addas (mae tafarndai a chlybiau'n wych, neu rhowch gynnig ar neuaddau pentref ac ystafelloedd cymunedol)
- Digon o gopïau o'r taflenni ateb a phensiliau
- Gwobrau
- Llawer o bobl

## Paratoi

- Cysondeb – penderfynwch ar ddiwrnod ac amser i gynnal y cwis a gwnewch hyn yn nodwedd reolaidd.
- Sicrhewch nad yw'n cael ei drefnu yr un pryd â digwyddiad arall, fel pêl-droed er enghraifft.
- Dewiswch y diwrnod gorau ar gyfer y lleoliad – Dydd Sul i Ddydd Iau sy'n gweithio orau i dafarndai, gan y bydd digwyddiad yn denu pobl yno ar eu dyddiau distawaf, ond efallai y byddai'n well gan glybiau a grwpiau cymdeithasol Ddydd Gwener neu Ddydd Sadwrn.

## Cam 1 – Hysbysebu

- Hysbysebwch y cwis y tu fewn i'r lleoliad ac ar y ffenestr yn wynebu allan gan ddefnyddio'ch posteri cwis RaW y BBC sydd â lle i chi roi dyddiad ac amser eich digwyddiad.
- Rhowch ddigon o rybudd i bobl.
- E-bostiwch neu ffoniwch bobl os ydych yn cynnal grŵp cymdeithasol, neu soniwch amdano amser cau os ydych yn berchennog tafarn.
- Defnyddiwch y dyddiadur digwyddiadau yn y papur lleol neu hyd yn oed yr orsaf radio BBC leol.
- Fel canolfan RaW bydd manylion eich lleoliad ar wefan RaW neu trwy linell ffôn RaW ar gyfer y rhai sy'n chwilio am gwisiau i fynd iddyn nhw yn eu hardal leol.

### Cyngor Cyflym RaW

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrth bawb mai cwis RaW y BBC yw'r digwyddiad fel y byddwch yn cael budd o'r holl waith hyrwyddo sy'n cael ei gynnal o gwmpas yr ymgyrch yma.

# Angenrheidiol ar gyfer Cwis RaW GWYCH (parhad)

### Cam 2 – Gwobrau

- Fe fydd arnoch angen gwobrau ar gyfer holl aelodau'r tîm(au) buddugol.

### Cam 3 – Y person cywir ar gyfer y gwaith

- Mae dewis yr holwr yn y cwis yn hanfodol i lwyddiant eich digwyddiad – gwnewch yn siŵr eu bod yn glir ac yn ddigynnwrf ond yn gadarn.

- Peidiwch â dewis rhywun sy'n dioddef o 'salwch DJ' – hoffi ei lais ei hun yn ormodol.

- Mae'r rhai sy'n cymryd rhan mewn cwisiau â diddordeb yn y cwestiynau a'r atebion yn unig. Mae'r cwisiau gorau'n cael eu cynnal â thipyn o symud ynddyn nhw a dim gormod o siarad gwag.

- Peidiwch ag anghofio'r pethau ymarferol. Sut bydd pobl yn clywed yr holwr? A oes system sain ar gael? Ble bydd yr holwr yn sefyll/eistedd?

### Cam 4 – Darllen trwy'r cwestiynau

- Trefnwch fod y cwisfeistr yn darllen trwy'r cwestiynau ymlaen llaw er mwyn deall y cwestiynau i gyd. Bydd hyn yn ei helpu i osgoi cael trafferth gydag unrhyw ynganiad anodd ac o'r herwydd bydd y digwyddiad yn swnio'n fwy proffesiynol.

### Cam 5 – Logisteg

- Llungopïwch y daflen ateb wag fel bod digon o gopïau ar gyfer pob tîm – fe fyddan nhw angen un daflen ar gyfer pob rownd yn y cwis. Mae'n well gwneud gormod o gopïau na dim digon.

- Crëwch eich system eich hun i ddosbarthu a marcio'r papurau.

- Gall y rhan fwyaf o bobl ymdopi â marcio tua deg papur. Os nad oes gennych chi ddeg pâr o ddwylo neu bobl eraill a all helpu, gallwch bob amser ofyn i'r timau gyfnewid papurau â'r timau eraill a'u marcio ac yna gallwch chi nodi'r sgoriau.

# Angenrheidiol ar gyfer Cwis RaW GWYCH (parhad)

## Ar ddiwrnod y cwis

**Y rhybudd olaf!** – dechreuwch gyhoeddi dechrau'r cwis 30, 15 a 5 munud cyn iddo ddechrau, ac anogwch bobl i feddwl am enw i'w tîm. Dosbarthwch y taflenni ateb a phensiliau ysgrifennu cyn dechrau'r cwis. Casglwch a chofnodwch enwau'r timau wrth i chi fynd yn eich blaen.

### Cyngor Cyflym RaW

Dylai cwis RaW y BBC gymryd tua awr, felly gwnewch yn siŵr bod gennych ddigon o amser!

**Estynnwch groeso** i bawb i'r cwis ac yna eglurwch sut mae'r rownd gyntaf yn gweithio.

**Rhybudd** – efallai yr hoffech wahardd y rhai sy'n cymryd rhan rhag defnyddio ffonau symudol i geisio dod o hyd i'r atebion a gosod cosb i'r rhai a gaiff eu dal yn twyllo, e.e. deg pwynt oddi ar eu sgôr terfynol.

### Cyngor Cyflym RaW

Mae'r cwisfeistr BOB AMSER yn iawn. Mae cwestiynau cwis RaW y BBC wedi eu hysgrifennu a'u gwirio'n broffesiynol. Os oes unrhyw un yn dadlau â'r ateb (ac fe wnân nhw!) mae'ch penderfyniad chi'n derfynol

**Cyngor gofyn cwestiwn** – darllenwch bob cwestiwn unwaith. Arhoswch ychydig eiliadau ac yna ailadroddwch. Ar ddiwedd y rownd ewch dros y cwestiynau'n gyflym.

**Marcio** – un ai casglwch y papurau atebion i'w marcio neu dywedwch wrth y timau am gyfnewid papurau. Pa ffordd bynnag a ddewiswch, bydd angen i chi nawr ddarllen yr atebion allan.

# Angenrheidiol ar gyfer Cwis RaW GWYCH (parhad)

**Sgorio** – un ai cyhoeddwch y sgoriau eich hunan os ydych wedi marcio'r papurau, nau galwch enwau'r timau fesul un a gofyn am y sgoriau. Rhowch y canlyniadau wedi eu diweddaru ar ddiwedd bob rownd.

**Cyngor Cyflym RaW**

I ychwanegu at y tensiwn, gallwch ddarllen y sgoriau terfynol o'r isaf i'r uchaf.

**Os digwydd bod dau dîm yn gyfartal** – os oes dau neu fwy o dimau'n gydradd gyntaf, gofynnwch i un aelod o'r timau hynny ddod draw atoch chi, gan ddod â phapur a phensel gyda nhw. Gofynnwch y cwestiwn penderfynu (sydd ar ddiwedd y daflen cwestiynau) yn uchel fel y gall pawb yn yr ystafell ei glywed. Dywedwch wrth y cystadleuwyr i ysgrifennu eu hateb ac enw'u tîm, ac yna roi eu papurau i chi. Penderfynwch pwy sydd agosaf at yr ateb cywir a chyhoeddwch enw'r tîm buddugol, gan ddweud enw'r tîm, beth oedd yr ymgais a'r ateb cywir.

Os oes dau neu fwy o'r cynigion yr un mor bell o'r ateb cywir, dywedwch wrthyn nhw fod yn rhaid iddyn nhw roi cynnig arall arni. Gallwch ailadrodd hyn nes y cewch chi enillydd. Dim ond ar ôl i chi gael enillydd clir y dylech chi ddatgelu'r ateb cywir.

# Cyfnod 2: Diddordebau RaW

Bydd Cyfnod 2 RaW yn cychwyn ym mis Mawrth 2006 ac yn rhedeg tan fis Mawrth 2007. Bydd yn elwa ar hyrwyddo dwys RaW gan y bydd yr ymgyrch erbyn hynny wedi cychwyn.

Bydd rhan hon yr ymgyrch yn cael ei hadeiladu ar ddiddordebau ac ymwybyddiaeth.

Bydd dau ddigwyddiad penodol i ganolbwyntio arnyn nhw oddi fewn i'r cyfnod hwn:

- **Gwanwyn** – llyfrau ffuglen newydd, wedi eu seilio ar Ddiwrnod Byd-eang y Llyfr ym mis Mawrth
- **Haf a hydref** – hyrwyddiadau chwaraeon a digwyddiadau teuluol gyda phwyslais penodol ar bêl-droed Cwpan y Byd

## Beth sydd ar gael?

**Llyfrau newydd – Yn Saesneg** Caiff 12 llyfr newydd ar gyfer darllenwyr canolig gan rai o brif gyhoeddwyr y DU eu lansio ar 2 Mawrth 2006, Diwrnod Byd-eang y Llyfr. Caiff y rhestr lyfrau ei galw'n Ddeunydd Darllen Cyflym, a bydd wedi ei chysylltu â'r ymgyrch RaW, gyda 12 arall i'w cyhoeddi ar 11 Mai mewn pryd ar gyfer hyrwyddiadau darllen ar gyfer yr haf. Mae'r awduron yn cynnwys Ruth Rendell, Danny Wallace, Richard Branson a Minette Walters, a bydd llyfr Dr Who newydd oddi wrth y BBC.

**Teledu a radio** – bydd rhaglenni'n ymwneud â chwaraeon yn hyrwyddo mentrau diweddaraf RaW gan gyfeirio pobl at y wefan a'r llinell ffôn.

**RaW ar-lein** – 'Pigion RaW' i weld adrannau'n ymwneud â phêl-droed a'r holl adnoddau RaW arferol.

# Cyfnod 2: Teimladau RaW (parhad)

## Beth allwch chi ei wneud?

**Cynhaliwch sesiynau Darllen RaW** – defnyddiwch gasgliadau llyfrau eich llyfrgell er mwyn i ddarllenwyr sefydlu gweithgareddau hwyliog ac i greu cymunedau o gwmpas darllen, yn enwedig llyfrau ffeithiol. Mae adnoddau a gwybodaeth am deitlau Pigion RaW yn gwneud hwn yn opsiwn gwych i lyfrgelloedd.

**Cynhaliwch Sesiwn Straeon RaW** – ymaelodwch yn un o'n gweithdai storïau ymarferol. Rydych chi'n gwneud yr hyrwyddo, rydyn ni'n darparu'r arbenigedd. Bydd nifer cyfyngedig o sesiynau wedi eu hyrwyddo yn cael eu cysylltu â darllediadau – manylion i ddilyn.

### Cyngor Cyflym RaW

Daliwch ddiddordeb y dynion yn RaW – hyrwyddwch drwy chwaraeon, DIY a diddordebau perthnasol eraill.

## Cynghorion Cyfnod 2 ar gyfer llyfrgelloedd RaW

- Cysylltwch â'ch clwb pêl-droed lleol neu dimau cymunedol eraill i weld a oes grwpiau'n ymwneud â chwaraeon neu weithdai Straeon RaW y gallwch eu cynnal gyda'ch gilydd.
- Hyrwyddwch y llyfrau a argymhellwyd ar y wefan trwy arddangos lluniau o gloriau'r llyfrau.
- Cyfeiriwch y defnyddwyr i'r wefan ac adrannau perthnasol yno ar chwaraeon a sêr y byd adloniant.
- Byddwch ag adnoddau RaW wrth law a hyrwyddwch weithgareddau Darllen RaW.

# Trywydd RaW

Bydd pob unigolyn yn creu eu llwybr eu hun trwy'r hyn sydd gan RaW i'w gynnig. Fe fyddan nhw'n cychwyn a gorffen ar bwyntiau gwahanol ac yn gwneud pethau gwahanol ar hyd y ffordd. Bydd eich canolfan RaW yn chwarae rôl allweddol wrth gyfeirio defnyddwyr at yr hyn a allai weithio iddyn nhw.

## Ymwybyddiaeth o Raw

Gall y man cychwyn fod yn rhaglen deledu neu radio yn hyrwyddo RaW neu fynd i'r cwis yn y dafarn neu ddigwyddiad yn y ganolfan ar hap a damwain neu trwy ddewis.

## Penderfyniad ymwybodol i wella sgiliau darllen ac ysgrifennu bob dydd

Gall rhai benderfynu mesur eu lefel llythrennedd tra bod eraill yn syml yn cydnabod yr hoffen nhw wella'u sgiliau llythrennedd. Bydd hwylustod cael at weithgareddau ac adnoddau mewn canolfannau RaW yn hanfodol.

## Gweithgaredd penodol a symbylir gan y rhai sy'n cymryd rhan

I rai, bydd y penderfyniad i wella'u sgiliau bob dydd yn eu cynorthwyo i fynd â nhw drwy'r adnoddau a nodir ar y wefan neu eu cyfeirio at weithgareddau lleol iawn. I eraill, gall y penderfyniad arwain at lwybr penodol o weithredu a awgrymir gan ymgynghorwyr ar y llinell ffôn gynghori. Sut bynnag y bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn penderfynu symud ymlaen yn ystod y cyfnod hwn, bydd adnoddau RaW yn helpu eu sgiliau llythrennedd.

## Does dim man terfyn penodol

Bydd canlyniadau'n amrywiol a bydd llwyddiant yn edrych yn wahanol i bob person. Bydd rhai'n symud ymlaen trwy gymryd camau bychain, darllen mwy neu gymryd rhan mewn gweithgareddau RaW. Bydd eraill yn llwyddo i gyrraedd targed arbennig neu'n dewis dysgu mwy ffurfiol. Bydd etifeddiaeth ymgyrch RaW yn sicrhau y bydd adnoddau yn dal i fod ar gael.

# Bywyd ar ôl RaW

Rydyn ni'n gobeithio y bydd RaW yn ysbrydoli ac ysgogi defnyddwyr i fod eisiau darllen ac ysgrifennu mwy. Isod mae rhestr o adnoddau pellach sydd â rhywbeth i'w gynnig i amrywiaeth o alluoedd. Gallai fod yn ddefnyddiol i ganolfannau RaW fod â'r rhestr hon ar gael wrth law.

Mae BBC Skillswise yn ymgyrch wedi ei hanelu at wella llythrennedd a rhifedd oedolion. Ar y wefan fe geir nifer o daflenni ffeithiau, cwisiau a gemau, yn ogystal â gwybodaeth ar gyfer tiwtoriaid sgiliau sylfaenol. Ewch i **bbc.co.uk/skillswise**.

Gall learndirect gynnig gwybodaeth am gyrsiau sgiliau bywyd – ffoniwch **0800 100 900**.

Mae rhestr o gyrsiau lleol ar y wefan **www.learndirect-advice.co.uk.**

Mae'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol yn sefydliad annibynnol sy'n ymgyrchu dros lythrennedd yn y DU. Mae'n darparu gwybodaeth ac yn cynnal mentrau: Reading Is Fundamental, UK; Yr Ymgyrch Ddarllen Genedlaethol yn cynnwys Reading Connects, Reading Champions a'r Ymgyrch Ddarllen Teuluol; Talk To Your Baby, a Reading The Game. Mae hefyd yn bartner allweddol yn y Vital Link. Manylion ar **www.literacytrust.org.uk.**

## Yng Nghymru

Bydd BBC Cymru yn darparu fersiwn i'w lwytho i lawr o adnoddau'r pecyn hwn yn y Gymraeg yn ogystal ag adnoddau Cymraeg ar-lein gyda gweithgareddau a gwybodaeth lleol. Pan fo'n addas, bydd y llinell ffôn yn cynnig gwasanaeth Cymraeg, ac mae gan ELWa wybodaeth am sgiliau sylfaenol ar **www.elwa.ac.uk/elwaweb.**

## Yn Lloegr

Mae **Move On** yn cynnig i bobl sydd â diddordeb mewn ennill cymwysterau mewn Saesneg neu Fathemateg y cyfle i brofi eu sgiliau a rhoi sglein ar y rhai sydd wedi rhydu braidd. Fe allan nhw roi cynnig ar brawf ymarfer (amlddewis fel yn rhan theori'r prawf gyrru) a dod o hyd i'w canolfan brawf agosaf, yna mynd yno am adolygiad bach olaf a sefyll y Prawf Cenedlaethol i ennill y cymhwyster cenedlaethol ar gyfer oedolion. Gweler **www.move-on.org.uk.**

Gall cyrsiau Skills for Life helpu dysgwyr i wella'u sgiliau sylfaenol gyda'r bwriad o gael swydd neu fagu hyder. Mae'r cymwysterau lefel mynediad a gynigir gan y DfES yn gam cyntaf delfrydol a gellir dod o hyd iddyn nhw ar wefan y City & Guilds ar **www.basic-skills.org.**

# Bywyd ar ôl RaW (parhad)

Mae'r **National Open College Network (NOCN)** yn cynnig cyrsiau mewn llythrennedd a rhifedd ar Lefel Mynediad, Lefel 1 a Lefel 2. Caiff y rhain eu cynnal mewn canolfannau addysg (o brifysgolion i ganolfannau cymunedol) ar draws y wlad. Gallwch chwilio am gymwysterau NOCN ar gronfa ddata genedlaethol y cwrs. Am fwy o fanylion ewch i **www.nocn.org.uk** neu ffoniwch **01332 268080.**

**Yr Alban** – Mae Learning Connections yn rhan o Communities Scotland, asiantaeth adfywio tai a chymunedau Gweithrediaeth yr Alban. Rhan o'r gorchwyl yw cefnogi strategaeth llythrennedd a rhifedd y Weithrediaeth a gweithredu'r rhaglen gefnogi genedlaethol. Mae Gweithrediaeth yr Alban wedi clustnodi cyllid newydd ar gyfer gwaith llythrennedd a rhifedd oedolion rhwng 2001 a 2008. Mae rhan o'r cyllido yn cael ei weinyddu gan y 32 o bartneriaethau strategaeth dysgu a datblygu cymunedol oddi fewn i'r strwythurau Cynllunio Cymunedol. Gweler **www.lc.communitiesscotland.gov.uk.**

**Gogledd Iwerddon** – Mae'r EGSA (Educational Guidance Service for Adults) yn sefydliad lleol, annibynnol, sy'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar ddysgu a gyrfaoedd. Mae'r EGSA â diddordeb penodol mewn gweithio gydag oedolion sydd ag ychydig brofiad o ddysgu ffurfiol. Gweler **www.egsa.org.uk**. Mae Adran Gyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon (DELNI) hefyd yn cynnig gwybodaeth hanfodol am sgiliau. Ewch i **www.delni.gov.uk**.

## Dewch yn diwtor sgiliau sylfaenol

I'r rhai sydd â gafael dda ar y Gymraeg, Saesneg neu Fathemateg ac a fyddai'n hoffi helpu eraill trwy ddod yn wirfoddolwr neu diwtor sgiliau sylfaenol, mae gwybodaeth am gyrsiau hyfforddi ar wefannau'r BBC - Skillswise a learndirect . Gweler bbc.co.uk/skillswise/tutors a **www.learndirect-advice.co.uk**

### Cyngor Cyflym RaW

Byddwch â gwybodaeth am gyfleon dysgu pellach ar gael wrth law.

# Cysylltiadau Raw

Os oes gennych ymholiadau arbennig ynghylch yr ymgyrch, neu os ydych am siarad ag aelod unigol o dîm RaW y BBC, cysylltwch â'r person perthnasol isod.

**Cynllun RaW**

Ystafell M2001
BBC Cymru
Llandaf
Caerdydd, CF52YQ

E-bost: rawcymru@bbc.co.uk

**Cyngor Cyflym RaW**

Os mewn penbleth, ffoniwch – fe wnawn ein gorau i helpu bob amser

**Tîm canolog RaW y BBC**

Cymru: 02920 323 766

Yr Alban: 0141 338 3260
Gogledd Iwerddon: 028 3751 0927
Lloegr:
Gogledd – 0113 224 7122
Y De a'r De Ddwyrain – 01273 320 428
Y Dwyrain – 01223 589 838
Y Gorllewin a'r De Orllewin – 01656 783 825
Llundain - 020 7765 2324
Dwyrain Canolbarth Lloegr – 0115 902 1895
Gorllewin Canolbarth Lloegr – 0121 567 7087
Y Gogledd Ddwyrain a Cumbria – 0191 244 1237

I gysylltu â'ch gorsaf radio leol neu eich swyddfa deledu ranbarthol, cysylltwch ag un o'r tîm uchod.

Ewch i'r wefan **bbc.co.uk/cymru/raw/mwy/ymgyrch** i lwytho i lawr fersiwn o'r pecyn hwn y gellir ei wneud yn fwy. Os na allwch gael at y rhyngrwyd ffoniwch y tîm RaW ar **020 8752 6777** er mwyn gofyn am fersiwn print bras neu fersiwn llafar.

Awdur: Rachel Harden

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd gan BBC Design & Publications